

LLESIANT DIWYLLIANNOL

Cynnwys	
LLESIANT DIWYLLIANNOL.....	1
1. Cyflwyniad	2
2. Ffydd ac ethnigrwydd.....	3
2.1 Ffydd a chrefydd.....	3
2.2 Man geni ac ethnigrwydd	4
3. Y Gymraeg.....	11
3.1 Cymuned.....	12
3.2 Addysg	14
3.3 Gweithlu	14
4. Cydlyniant cymunedol.....	17
4.1 Gweithredu cymunedol a chymdeithasol	17
4.2 Gwirfoddoli.....	18
4.3 Cydlyniant cymunedol a pherthyn.....	19
5. Y celfyddydau a threftadaeth	21
5.1 Y celfyddydau	22
5.2 Digwyddiadau diwylliannol.....	23
5.3 Amgueddfeydd, treftadaeth a thirweddau	25
5.4 Twristiaeth.....	27
6. Gweithgareddau hamdden a chwaraeon	28
6.1 Hamdden	28
6.2 Cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.....	29
7. Cryfderau cymunedau	32
8.1 Blaenau Gwent	32
8.2 Caerffili	32
8.3 Casnewydd	32
8.4 Torfaen.....	33
8.5 Sir Fynwy.....	33
8. Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.....	35
9. Tueddiadau a heriau'r dyfodol.....	39

1. Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o'r asesiad yn dweud wrthym am ddiwylliant yng Ngwent – y mathau o weithgareddau hamdden, chwaraeon a chwarae y mae pobl yn eu mwynhau, yr arlwy yn y celfyddydau a threftadaeth, a rôl y Gymraeg. Mae hefyd yn ystyried sut mae'r amrywiaeth sy'n bodoli yn ein cymunedau yn dylanwadu ar ddiwylliant yng Ngwent, ble y bydd pobl yn mynd i brofi diwylliant, a sut mae gwirfoddoli ac asedau cymunedol yn effeithio ar lesiant.

Yn aml, yn yr ysgol y bydd rhai pobl ifanc yn cael profiad o weithgareddau diwylliannol newydd, o gymryd rhan mewn chwaraeon i ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u dathliadau. Dyma ble y bydd llawer ohonynt yn meithrin eu sgiliau Cymraeg hefyd.

O ganlyniad i COVID-19, mae llawer o ddigwyddiadau ym meysydd diwylliant a chwaraeon, a lleoliadau diwylliannol, wedi bod ar gau yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud, gan arwain at ail-ddelweddu mannau cymunedol ac awyr agored a symud rhai ohonynt ar-lein.

Mae gan Went dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys uchafbwyntiau megis Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Gŵyl Fwyd y Fenni a rhan o lwybr arfordir enwog Cymru. Mae'n gartref i gaerau Rhufeinig, cestyll a phlastai, a chwrs golff Cwpan Ryder.

Mae helpu grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys pobl o wahanol ddiwylliannau ac ethnigrwydd, i gyd-dynnu'n dda â'i gilydd a theimlo'n ddiogel yn eu cymunedau yn bwysig ar gyfer llesiant, a bydd yn helpu i hyrwyddo cyfrifoldeb byd-eang. Gall teimlo'n rhan o gymuned alluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gan rannu syniadau a gwerthoedd.

Gall sicrhau y caiff pawb yn ein cymunedau yr un cyfleoedd i ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden a gweithgarwch corfforol gefnogi ffyrdd iach o fyw.

Mae llawer o swyddi'n gysylltiedig â'n diwydiannau twristiaeth a hamdden, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn seiliedig ar ein hasedau treftadaeth ac amgylcheddol lleol. Hefyd, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi bod yr economi greadigol yn sector â blaenoriaeth sydd â'r potensial i greu ffyniant yn y ranbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf ¹.

Gall pobl o wahanol oedrannau fwynhau gwahanol weithgareddau diwylliannol ond, yn yr un modd, gall diddordebau diwylliannol ddod â phobl o wahanol oedrannau ynghyd. Gwyddom fod poblogaeth Gwent yn heneiddio, a gall hyn olygu y bydd mwy o bobl yn gallu cefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli.

Gwyddom hefyd y gall yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn rhai o'n cymunedau ei gwneud hi'n anodd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ac mae fforddiadwyedd a mynediad yn broblemau penodol. Mae'n bosibl y bydd y ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r

heriau hyn yn y dyfodol yn galluogi pawb i gymryd mwy o ran ac yn arwain at sefydlu gweithgareddau diwylliannol newydd ac amrywiol.

Er bod y wybodaeth a ddefnyddir yn y bennod hon yn cyflwyno darlun o lesiant diwylliannol, ceir rhai meysydd lle y byddai data ychwanegol yn helpu i fireinio'r asesiad. Mae hyn yn cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hamdden na chaiff gwybodaeth amdanynt ei chasglu drwy ddata ar gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon neu drwy fesurau sy'n ymwneud â threftadaeth a'r celfyddydau.

2. Ffydd ac ethnigrwydd

Mae'r ffordd y mae pobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau yn cyd-dynnu â'i gilydd yn cael effaith uniongyrchol ar ba mor gydlynus yw cymuned. Mae cymunedau cydlynus, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu derbyn ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a phethau sydd o ddiddordeb iddynt, o fudd i bawb, gan helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Yn yr un modd â phobl o wahanol oeddrannau, gall pobl o wahanol gefndiroedd hefyd fwynhau gwahanol weithgareddau. Mae niferoedd mwy o wahanol grwpiau ethnig mewn cymunedau yn golygu bod mwy o ddiwylliannau amrywiol yn cymysgu a chyfleoedd i ddysgu am draddodiadau a gwerthoedd eraill.

Gall mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl o wahanol gefndiroedd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, megis teimlo'n ddiogel, gefnogi cymunedau mwy cydlynus. Mae rhagor o wybodaeth am droseddau a diogelwch cymunedol a'r ffordd y maent yn effeithio ar lesiant ehangach i'w gweld yn y bennod ar lesiant cymdeithasol.

2.1 Ffydd a chrefydd

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod canran y bobl yng Nghasnewydd a ddywedodd eu bod yn Fwslimiaid yn uwch na gweddill Gwent a chyfartaledd Cymru. Mae amrywiadau eraill yn bodoli ledled Gwent ar gyfer y bobl hynny a ddywedodd eu bod yn Gristnogion neu eu bod yn ddigrefydd. Gall y niferoedd hyn edrych yn wahanol iawn pan fydd gwybodaeth o Gyfrifiad 2021 ar gael.

	Caerffili	Blaenau Gwent	Torfaen	Sir Fynwy	Casnewydd	Cymru
Cristion	50.7	49.9	55.4	62.5	56.9	57.6
Bwdhydd	0.2	0.2	0.2	0.3	0.2	0.3
Hindŵ	0.1	0.1	0.3	0.2	0.5	0.3
Iddew	0.0	0.0	0.0	0.1	0.1	0.1
Mwslim	0.2	0.3	0.3	0.3	4.7	1.5
Sikh	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1
Crefyddau eraill	0.4	0.4	0.3	0.4	0.3	0.4
Dim crefydd	40.9	41.1	35.8	28.5	29.7	32.1
Heb nodi crefydd	7.5	8.1	7.6	7.7	7.5	7.6

Ffigur C1: Tabl yn dangos y gwahanol grefyddau ledled Gwent ²

2. 2 Man geni ac ethnigrwydd


Amcangyfrifwyd bod y mwyafrif o bobl a oedd yn byw yng Ngwent yn ystod mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2020 yn enedigol o'r DU, ac mai dim ond 5.8% o bobl a aned dramor.

Ffig C2–C33:


Ethnicity: % of people who are white and UK born	Ethnigrwydd: % y bobl sy'n wyn ac a gafodd eu geni yn y DU
Area	Ardal
Blaenau Gwent	Blaenau Gwent
Caerphilly	Caerffili
Monmouthshire	Sir Fynwy
Newport	Casnewydd
Torfaen	Torfaen
Gwent	Gwent
Wales	Cymru
Office for National Statistics (ONS):	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG):
Ethnicity: % of people who are white and not UK born	Ethnigrwydd: % y bobl sy'n wyn ac na chawsant eu geni yn y DU
Ethnicity: % of people who are from an ethnic minority and UK born	Ethnigrwydd: % y bobl sy'n perthyn i leiafrif ethnig ac a gafodd eu geni yn y DU
Ethnicity: % of people from a non-white background	Ethnigrwydd: % y bobl o gefndir nad yw'n wyn
Ethnicity: % white	Ethnigrwydd: % gwyn
Ethnicity: % Mixed/multiple ethnic group	Ethnigrwydd: % Cymysg/grŵp aml-ethnig
Ethnicity: % Asian/Asian British	Ethnigrwydd: % Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
Ethnicity: % Black/African/Caribbean/Black British	Ethnigrwydd: % Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig
Ethnicity: % Other ethnic group	Ethnigrwydd: % Grŵp ethnig arall
Welsh Language: % of people aged 3+ who can speak Welsh	Y Gymraeg: % y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
Community: % who feel able to influence decisions affecting their local area	Y gymuned: % y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
Area (Line)	Ardal (Llinell)
Welsh Government (WG)	Llywodraeth Cymru
Community: % of people who volunteer	Y gymuned: % y bobl sy'n gwirfoddoli
Rolling Month Gwent	Mis Treigl Gwent

Jul	Gorff
Aug	Awst
Sep	Medi
Oct	Hyd
Nov	Tach
Dec	Rhag
Jan	Ion
Feb	Chwe
Mar	Maw
Apr	Ebr
May	Mai
Jun	Meh
Community: % of people agreeing that they belong to the area; that people from different background get on well together; and that people treat each other with respect	Y gymuned: % y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
Community: % of people attending or participating in arts, culture or heritage activities at least 3 times a year	Y gymuned: % y bobl sy'n mynd i weithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth, neu'n cymryd rhan ynddynt, o leiaf deirgwaith y flwyddyn
Region	Rhanbarth
Wales	Cymru
Activity: % of people participating in sporting activities three or more times a week	Gweithgarwch: % y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos


3



Ffigur C2 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n wyn ac yn enedigol o'r DU ledled Gwent ⁴



Ffigur C3 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n wyn ac nad ydynt yn enedigol o'r DU ledled Gwent ⁵




Ffigur C4 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n perthyn i leiafrif ethnig ac yn enedigol o'r DU ledled Gwent ⁶

Gwyn yw ethnigrwydd y rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Ngwent, ac mae 3.88% o bobl o gefndir nad yw'n wyn. Yng Nghasnewydd y mae'r gyfran uchaf (10.09%).


Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at yr amrywiaeth ethnig gyfyngedig ledled y rhanbarth.

	BG	CAE	SF	CAS	TO	Gwent
Nifer y bobl o gefndir nad yw'n wyn	1,064.0	2,961.0	1,797.0	14,711.0	1,844.0	22377


Nifer y bobl o gefndir gwyn	68,750	175,845	89,526	131,025	89,231	554,377
% y bobl o gefndir nad yw'n wyn	1.52	1.66	1.97	10.09	2.02	3.88
% Gwyn	98.5	98.3	98.0	89.9	98.0	96.5
% Cymysg/grŵp aml-ethnig	0.6	0.7	0.7	1.9	0.7	0.9
% Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	0.7	0.8	1	5.5	1.1	1.82
% Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	0.1	0.1	0.2	1.7	0.2	0.46
% Grŵp ethnig arall	0.1	0.1	0.1	1	0.1	0.28




Ffigur C5 – Graff yn dangos canran y bobl o gefndir nad yw'n wyn ledled Gwent ⁷




Ffigur C6 - Graff yn dangos canran y bobl wen ledled Gwent




Ffigur C6 – Graff yn dangos canran y bobl o ethnigrwydd Cymysg/grŵp aml-ethnig ledled Gwent ⁸



Ffigur C7 – Graff yn dangos canran y bobl Asiaidd / Asiaidd Prydeinig ledled Gwent ⁹



Ffigur C8 – Graff yn dangos canran y bobl Ddu/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig ledled Gwent ¹⁰



Ffigur C9 – Graff yn dangos canran y bobl o Grŵp ethnig arall ledled Gwent ¹¹

Ar wahân i Gasnewydd, sef yr ardal fwyaf amlddiwylliannol o blith yr holl awdurdodau lleol, prin yw'r amrywiaeth ethnig yn y rhanbarth. Gallai'r diffyg amrywiaeth ethnig hwn ei gwneud hi'n anos i bobl ddeall eu diwylliannau a'u credoau ei gilydd, gan fod llawer llai o gyfleoedd i ryngweithio â phobl o gefndiroedd amrywiol. Gallai hyn, yn ei dro, gael effaith ar nifer yr achosion o droseddau casineb neu hiliaeth.

Nid yw effaith lawn Brexit yn gwbl glir eto; gall olygu y bydd llai o bobl o wledydd Ewropeaidd eraill yn ymgartrefu yng Nghymru, neu efallai y bydd mwy o bobl o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ymgartrefu yng Nghymru.

Dros y misoedd diwethaf, mae cynlluniau i ffoaduriaid wedi cael eu sefydlu ac mae Gwent yn cymryd rhan ynddynt. Yn dilyn yr argyfwng diweddar yn Affganistan, mae'n bosibl y gwelwn fwy o ffoaduriaid yn ymgartrefu yn y rhanbarth. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd unigolion yn ymgartrefu yng Ngwent yn y tymor hir, neu'n dewis symud i ardaloedd â mwy o amrywiaeth.

- **Ffoaduriaid**

Pobl y mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi eu hadnabod fel pobl y mae angen eu hamddiffyn yn unol â'r Confensiwn Ffoaduriaid ar Hawliau Dynol, neu am resymau penodol eraill, yw ffoaduriaid. Yn ôl y gyfraith, mae rhywun yn ffoadur nes i'w gais am Ddinasyddiaeth Brydeinig gael ei gymeradwyo. Cyfeirir at ffoaduriaid sy'n dewis peidio â gwneud cais am Ddinasyddiaeth Brydeinig, ac sy'n gwneud cais am *Ganiatâd i Aros am Gyfnod Amhenodol* yn lle hynny, fel *preswylwyr sefydlog*. Er bod diffiniad cyfreithiol clir o'r adeg pan fydd rhywun yn gorffen bod yn ffoadur, mae'n bosibl y bydd yn parhau i 'deimlo' fel ffoadur am gyfnod amhenodol ac yn ystyried ei hun yn ffoadur.

Mae gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref¹² am y Cynllun Adleoli Pobl Agored i Niwed a'r Cynllun Adleoli Plant Agored i niwed yn dangos bod 123 o ffoaduriaid *sefydlog* yn byw yng

Nghasnewydd ar ddiwedd mis Mawrth 2020; 37 yn Sir Fynwy; 32 yng Nghaerffili; 33 yn Nhorfaen; ac 20 ym Mlaenau Gwent.

Mae'n bosibl cael ffigurau dibynadwy ar gyfer ffoaduriaid ledled Gwent sydd wedi dod drwy'r *llwybr ceisio lloches*. Pan fydd pobl wedi ennill statws Ffoadur, gallant ddewis ble i fyw; gallant symud i ffwrdd o Went, neu efallai y bydd eraill yn symud i mewn i Went. Fodd bynnag, mae unrhyw ddata ar hyn yn anghyson ac yn annibynadwy.

- **Ceiswyr Lloches**

Mae'r termau *Ceiswyr Lloches* a *Phobl sy'n Ceisio Noddfa* yn disgrifio pobl sydd wedi cyrraedd y DU ac wedi gwneud cais am gael eu hadnabod fel ffoaduriaid yn unol â'r Confensiwn Ffoaduriaid. Yng Nghymru, ffefrir y term *Pobl sy'n Ceisio Noddfa*; adlewyrchir hyn yng nghynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru hefyd.

Mae nifer y *Pobl sy'n Ceisio Noddfa* yn amrywio dros amser; ond nid oes data ar gael ar gyfer Gwent. Yng Nghymru, hyd at fis Mawrth 2021, roedd 2,734 o bobl yn ceisio noddfa. Nid oes data ar gael ar gyfer Gwent.¹³

- **Ymfudwyr**

Ar lefel ryngwladol, nid oes diffiniad a dderbynnir yn fyd-eang o'r term *ymfudwr*. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn disgrifio ymfudwyr fel a ganlyn¹⁴.

".....an international migrant is someone who changes his or her country of usual residence, irrespective of the reason for migration or legal status."

Mae sawl categori gwahanol o ymfudwyr, er enghraifft myfyrwyr, gweithwyr mudol ac ymfudwyr o'r UE.

Mae ystadegau diweddaraf y Swyddfa Gartref¹⁵ ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, hyd at fis Mehefin 2021, yn dangos bod tua 6 miliwn o geisiadau wedi cael eu gwneud gan bobl sydd am barhau i fyw yn y DU, gan gynnwys 98,600 o Gymru. Nid oes ffynhonnell data glir ar gyfer nifer dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU gan mai dim ond y rhai sy'n gwneud cais am statws sefydlog y mae'r Cynllun yn eu mesur. Mae'n bosibl nad yw rhai o'r bobl sydd wedi gwneud cais yn byw yn y DU mwyach, neu efallai nad ydynt wedi penderfynu eto ble yr hoffent fyw yn y tymor hir. Mae data am ymfudo hefyd ar gael yn yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, er nad yw hyn yn cynnwys dinasyddion yr UE sy'n byw mewn cartrefi gofal, hosteli neu sefydliadau cymunedol eraill.

3. Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth ac fe'i defnyddir gan lawer o bobl bob dydd yn eu cartrefi, yn eu cymunedau ac yn eu gweithleoedd.


Mae gweithgareddau fel cerddoriaeth Gymraeg yn cyflwyno'r iaith i gynulleidfa newydd sbon gan gynnwys pobl y tu allan i Gymru, a gall Eisteddfodau a gwyliau eraill fod yn lleoedd da i

gwrdd â phobl a dysgu pethau newydd. Mae gweithgareddau Cymraeg eraill yn cynnig cyfleoedd i gyfathrebu yn y gwaith ac ymgysylltu â gwasanaethau yn eich dewis iaith neu'n ddwyieithog.

Bydd gwella darpariaeth Gymraeg yng Ngwent yn helpu i gynnal diwylliant a hunaniaeth Gymreig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn helpu i greu lleoedd. Mae angen i ni sicrhau y bydd gwasanaethau'r dyfodol yn ddigidol gynhwysol i bawb, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

3.1 Cymuned

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhob ardal ledled Gwent yn is na chyfartaledd Cymru (19.01%), gan amrywio o 11.19% yng Nghaerffili i 7.85% ym Mlaenau Gwent. Mae'n bosibl y bydd y ffigurau hyn yn wahanol iawn yn y cyfrifiad nesaf.



Ffigur C10 – Graff yn dangos canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Gwent ¹⁶

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg ledled rhanbarth Gwent. Mae pob ardal ymhell islaw cyfartaledd Cymru.

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Blaenau Gwent	18.0	17.8	17.8	17.5	19.7	17.1	16.1
Caerffili	23.4	24.8	21.8	22.0	23.7	23.6	24.6
Torfaen	15.5	16.0	18.3	19.0	17.7	18.0	18.5
Sir Fynwy	17.1	16.7	16.8	16.7	17.6	17.5	16.5
Casnewydd	23.3	19.6	19.8	20.6	20.9	17.8	20.5
Cymru	27.8	27.3	28.8	29.0	29.8	28.4	29.1

Ffigur C11 – Tabl yn dangos canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Gwent ¹⁷

Dyhead hirdymor y sector cyhoeddus yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, codi ymwybyddiaeth, gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a hyrwyddo manteision economaidd yr iaith ymhlith y boblogaeth. Mae hefyd am gynyddu'r cyfleoedd i bobl â sgiliau Cymraeg ar

bob lefel i ymarfer a siarad yr iaith mewn amgylchedd diogel, cyfeillgar a chefnogol, ac ymgysylltu â phobl nad oes ganddynt ymwybyddiaeth o'r iaith o bosibl.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn fwy gweladwy yn y gymuned. Rhaid i bob cyngor baratoi strategaeth 5 mlynedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol a'r boblogaeth ehangach, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni nod Cymraeg 2050, sef sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

. Dylai'r strategaeth gynnwys y canlynol:

- Targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal
- Cynllun Gweithredu sy'n esbonio sut mae'n bwriadu cyflawni'r strategaeth

Bydd aelodau o'r Fforwm Iaith a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg a rhanddeiliaid eraill yn helpu cyngorau i wireddu gweledigaeth o ran y Gymraeg

Mewn ardaloedd â niferoedd bach o siaradwyr Cymraeg, mae gan addysg ran bwysig i'w chwarae er mwyn gwella sgiliau iaith fel y nodir yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (gweler adran 3.2).

Mae'r strategaethau presennol (bydd rhai newydd yn barod ar ôl mis Mawrth 2022) i'w gweld yma: [Cyngor Blaenau Gwent](#); [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#); [Cyngor Sir Fynwy](#); [Cyngor Dinas Casnewydd](#); a [Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#).

Mentrau Iaith a Fforymau Iaith

Sefydliadau cymunedol sy'n gweithio i godi proffil y Gymraeg mewn ardal benodol yw Mentrau Iaith. Mae pob Menter Iaith leol yn cael grant sylfaenol gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chymorth ariannol o nifer o ffynonellau eraill, er mwyn gweithio gydag unigolion, sefydliadau a busnesau lleol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei hardal.

Y Fenter Iaith leol sy'n gyfrifol am gydgyssylltu Fforwm Iaith yr ardal leol. Mae'r aelodau'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Yn gyffredinol caiff y fforymau eu defnyddio fel grwpiau ffocws, er mwyn rhannu arferion da a gweithio mewn partneriaeth. Mae tri Fforwm Iaith ledled Gwent. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth i helpu'r gwaith hwn, ond caiff pob un ei reoli a'i weinyddu'n wahanol oherwydd amrywiadau mewn trefniadau cyllido, aelodaeth a chydberthnasau â rhanddeiliaid. Golyga hyn ei bod yn anodd eu cymharu'n uniongyrchol o ran eu hamcanion, eu targedau a'u gweithgareddau.

Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy

Nod Menter Iaith BGTM, sy'n gwasanaethu Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy, yw hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i bobl o bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae cymryd rhan mewn digwyddiadau yn ffordd wych o wneud ffrindiau a dod i adnabod siaradwyr Cymraeg eraill yn yr ardal.

Menter Iaith Caerffili – Nod Menter Iaith Caerffili, sy'n gwasanaethu Bwrdeistref Sirol Caerffili, yw hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, drwy sicrhau y daw'n rhan ganolog o fywyd yn y sir a bod cymunedau'n rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i datblygiad.

Menter Iaith Casnewydd – Nod Menter Iaith Casnewydd yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant ac oedolion a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o wead cymdeithasol y ddinas drwy alluogi pobl i fyw a gweithio yn y Gymraeg. Mae'n trefnu llawer o ddigwyddiadau i blant (meithrin, cynradd, ieuenctid), oedolion ifanc, teuluoedd, dysgwyr a'r henoed.

3.2 Addysg

Mae Cymraeg 2050¹⁸ yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, gan gynnwys sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

Ar gyfer y system addysg, mae angen cynyddu cyfran y dysgwyr ym mhob grŵp oed ysgol sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â chynyddu cyfran y dysgwyr a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Cymraeg 2050 hefyd yn ceisio trawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu fel y gall mwy o ddysgwyr siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol;

- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd ac uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ;
- Cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg fel iaith,

Mae *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cynnwys cynigion ar gyfer gwella darpariaeth addysg, safonau ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda thargedau ac adroddiadau cynnydd blynyddol.

Mae'r strategaethau presennol (bydd rhai newydd yn barod ar ôl mis Mawrth 2022) i'w gweld yma: [Cyngor Blaenau Gwent](#); [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#); [Cyngor Sir Fynwy](#); [Cyngor Dinas Casnewydd](#); a [Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#).

3.3 Gweithlu

Wrth i fwy o bobl ledled Gwent ddechrau defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol, mae angen i wasanaethau cyhoeddus allu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg. Mae gwasanaethau cyhoeddus (awdurdodau lleol, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) ledled Gwent yn adrodd ar sgiliau Cymraeg staff mewn gwahanol ffyrdd felly mae'n anodd llunio ffigur cronol.

Blaenau Gwent	Dim gallu	Ychydig	Yn eithaf da	Rhywfaint	Yn rhugl	Dim ymateb
Siarad Cymraeg	1503 (51%)	353 (12%)	20 (1%)	143 (5%)	41 (1%)	909 (30%)

Deall Cymraeg	1467 (49%)	396 (13%)	27 (1%)	167 (6%)	42 (2%)	871 (29%)
Ysgrifennu Cymraeg	1536 (52%)	291 (10%)	22 (1%)	118 (4%)	37 (1%)	964 (32%)
Darllen Cymraeg	1521 (51%)	305 (10%)	29 (1%)	138 (5%)	41 (1%)	934 (32%)

Ffigur C13 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Blaenau Gwent yn 2020-21 ¹⁹

Caerffili	Cyfanswm y Cyngor
Cyfanswm y Staff	8296
Siaradwyr Cymraeg	1825
Canran	21.99%

Ffigur C12 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2020-21 ²⁰

Sir Fynwy	Dechreuwy r	Dechreuwy r uwch	Canolradd	Uwch	Rhugl
Sgiliau Cymraeg (heb gynnwys staff ysgolion)	173	32	18	6	35

Ffigur C13 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Sir Fynwy yn 2020-21 ²¹

Casnewydd	Dim	Dechreuwy r	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	2692	1253	234	240	1446
Llafar	2489	1449	236	235	1456
Deall	2506	1421	240	248	1450
Ysgrifenedig	2752	1197	213	222	1481
Canran y cyfrif pennau	42.73%	24.23%	4.09%	4.23%	24.72%

Ffigur C16 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Dinas Casnewydd yn 2020-21 ²²

Torfaen	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Sgiliau Cymraeg	1496	183	26	10	12	20
Canran	86%	10%	1%	1%	1%	1%

Ffigur C17 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn 2020-21 ²³

Sgiliau Cymraeg Cyflogeion (Heddlu Gwent)			
Lefel	Nifer y Cyflogeion		
	2018/19	2019/20	2020/21
1	1598	1765	1912
2	39	38	41
3	24	20	22
4	34	34	37
5	22	21	27
Cyfanswm	1717	1878	2039
Cyfanswm nifer y cyflogeion	2138	2262	2447

Ffigur C14 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Heddlu Gwent ²⁴

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan			
Lefel	Gwrandd / Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu Cymraeg
0 - Dim Sgiliau / No Skills	3790	3753	3867
1 - Mynediad / Entry	676	590	462
2 - Sylfaen / Foundation	136	118	131
3 - Canolradd / Intermediate	80	76	58
4 - Uwch / Higher	82	71	61
5 - Hyfedredd / Proficiency	91	95	78
Cyfanswm Cydymffurfiaeth a Gwblhawyd	4855	4703	4657
Cyfanswm Cydymffurfiaeth nas Cwblhawyd	9809	9961	10007

Ffigur C15 – Tabl yn dangos Sgiliau Cymraeg Cyflogaion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 2020-21 ²⁵

Mae gan bob awdurdod lleol ei brosesau ei hun ar gyfer recriwtio staff.

Corff Sector Cyhoeddus	Nifer y Swyddi	Cymraeg yn Hanfodol	Cymraeg yn Ddymunol	Angen dysgu Cymraeg yn y swydd	Dim angen Sgiliau Cymraeg
Cyngor Blaenau Gwent	161	2	159	0	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	690	4	684	42	7*
Cyngor Sir Fynwy	166	1	165	0	0
Cyngor Dinas Casnewydd	291	6	17	0	268
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	334	12	3	0	319
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2415	14	2258	18	125

Ffigur C16 – Tabl yn dangos y gofynion Cymraeg ar gyfer swyddi a hysbysebwyd ym mhym awdurdod lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod 2020-21 ²⁶

*Aseswyd nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn oherwydd sgiliau Cymraeg aelodau eraill o'r tîm. Fodd bynnag, hysbysebir bod Cymraeg yn ddymunol o leiaf ar gyfer pob swydd wag.

Mae gan bob awdurdod lleol ei ffyrdd ei hun o gofnodi nifer y cyflogaion sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae COVID-19 wedi effeithio ar nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith Gymraeg hefyd.

Corff Sector Cyhoeddus	Cyrsiau a Fynychwyd
Cyngor Blaenau Gwent	6 (Cymraeg yn y Gweithle)
CBS Caerffili	246
Cyngor Sir Fynwy	25
Cyngor Dinas Casnewydd	9 (a 30 drwy ap Say Something in Welsh)
CBS Torfaen	14
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	1,653 (rhwng nifer o gyrsiau)

Ffigur C17 – Tabl yn dangos y cyrsiau Cymraeg a fynychwyd gan staff ym mhym awdurdod lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod 2020-21 ²⁷

4. Cydlyniant cymunedol

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o feithrin cymunedau cydlynus, lle y bydd pobl o wahanol gefndiroedd ac oedranau yn dod ynghyd ac yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn perthyn, gan gynnwys pobl wedi'u hallgáu'n gymunedol, pobl unig a phobl â phroblemau iechyd.

O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae cymunedau wedi dod ynghyd i gefnogi ei gilydd, gan sefydlu grwpiau cymorth, banciau bwyd a mentrau eraill ar lefel leol iawn. Mae llawer o bobl bellach yn adnabod eu cymdogion yn well nag o'r blaen. Hefyd, mae technoleg wedi chwarae ei rhan i gefnogi cymunedau yn ystod y pandemig, gan alluogi pobl i gadw mewn cysylltiad o bell yn ystod cyfyngiadau symud. Mae wedi galluogi pobl i weithio gartref, gan olygu eu bod yn treulio mwy o amser yn y lleoedd lle maent yn byw. Fodd bynnag, mae llythrennedd digidol, mynediad a fforddiadwyedd technoleg wedi bod yn rhwystr i rai o'n cymunedau.

Yn ogystal â bod yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, gall gwirfoddoli alluogi pobl i gwrdd, magu hyder a gwella'r lleoedd lle maent yn byw.

4.1 Gweithredu cymunedol a chymdeithasol

Wrth ystyried gweithredu cymunedol a chymdeithasol, gall y ganran sy'n pleidleisio mewn etholiadau ddangos i ni i ba raddau y mae ein cymunedau yn awyddus i gymryd rhan a lleisio eu barn o fewn ein systemau gwleidyddol, ac yn teimlo y gallant wneud hynny.


Ledled Gwent, bu gostyngiad yn y ganran a bleidleisiodd rhwng 2016 a 2021, ar wahân i Sir Fynwy lle y gwelwyd cynnydd o 4% yn 2021.

Gellir dehongli'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd, ond mae'n bosibl y gallai ddangos nad yw cymunedau lleol yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, neu hyd yn oed eu bod yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed, ac felly maent yn dewis peidio â chymryd rhan.

Y Ganran a Bleidleisiodd (yn Etholiadau'r Senedd)						
	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen	Gwent
% o'r pleidleiswyr yn 2016	42.1	43.4	48.6	40.8	38.3	42.6
% o'r pleidleiswyr yn 2021	29.0	43.0	52.5	40.5	37.0	40.4

Ffigur C18 – Tabl yn dangos y ganran a bleidleisiodd yn Etholiadau'r Senedd ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Lleol ledled Gwent yn 2016 a 2021 ²⁸


Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos darlun tebyg i'r ganran a bleidleisiodd, gyda phobl ledled y rhanbarth yn teimlo bod ganddynt llai o allu yn gyffredinol i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol ers 2013. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd yr ymateb lleol a chenedlaethol i bandemig COVID-19 yn effeithio ar farn pobl.



Ffigur C19 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol ledled Gwent ²⁹

4.2 Gwirfoddoli

Mae'r data sydd ar gael yn dangos y bu lleihad mewn gwirfoddoli rhwng 2016 a 2019 ledled rhanbarth Gwent.



Ffigur C20 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n gwirfoddoli ledled Gwent ³⁰

Mae'r lefel uchaf o wirfoddoli yng Ngwent i'w gweld yn Sir Fynwy, a'r isaf ym Mlaenau Gwent. Mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i'r gwahaniaethau o ran amddifadedd rhwng y ddwy ardal. Oherwydd y lefelau is o amddifadedd yn Sir Fynwy, mae'n debygol y bydd gan drigolion fwy o amser a rhyddid ariannol i wirfoddoli. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu y bydd trigolion Sir

Fynwy yn fwy tebygol o gael budd o wirfoddoli na gweddill Gwent. Gall hyn fod o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith a wneir gan y gwirfoddolwr, yn ogystal â'r effaith gadarnhaol y gall gwybod ei fod wedi gwneud gwahaniaeth ei chael ar ei lesiant.


Nid oes data ar gael ar gyfer 2020 a 2021 ar hyn o bryd, ac nid yw'n hysbys sut y bydd y pandemig wedi effeithio ar nifer y bobl sy'n gwirfoddoli. Mae'n bosibl y gwelir lleihad pellach o ganlyniad i reolau cadw pellter cymdeithasol a gwarchod. Mae hefyd yn bosibl y bu modd i bobl a gafodd eu rhoi ar ffyrlo ddefnyddio eu hamser i gefnogi eu cymunedau. Rydym hefyd yn ymwybodol o achosion lle mae cymunedau wedi cydweithio i wirfoddoli yn ystod y pandemig, ac mae'r rhain i'w gweld yn ein hadran "cryfderau cymunedau".

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi dweud bod "deall sut mae gwirfoddoli wedi newid yn ystod y pandemig yn gymhleth." Nid yw rhai gwirfoddolwyr wedi gweld newid neu ddim llawer o newid yn eu rôl; mae llawer yn gwirfoddoli am y tro cyntaf; mae rhai wedi symud at rolau digidol; ac mae eraill wedi cael eu gorfodi i stopio un ai gan fod gwasanaethau'n dod i ben, neu gan fod angen iddyn nhw warchod neu ofalu am eraill."

Â yn ei blaen i esbonio bod "ystod o astudiaethau'n awgrymu bod cyfraddau cyffredinol gwirfoddoli ffurfiol wedi aros yn debyg ar y cyfan i'r cyfnod cyn y pandemig, ond fod hyn yn cuddio newidiadau sylweddol o ran pwy sydd wedi gwirfoddoli neu heb wirfoddoli yn ystod y cyfnod hwn" ³¹


4.3 Cydlyniant cymunedol a pherthyn

Gall y graddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu yn eu cymuned neu eu cymdogaeth gael effaith ar eu hymdeimlad o berthyn. Ceir lefelau cymharol isel o amrywiaeth yng nghymunedau Gwent, a allai olygu bod pobl sy'n perthyn i ddiwylliannau, rhywioldebau neu systemau cred eraill yn teimlo na chânt eu cynnwys cymaint, neu'n dioddef o droseddau casineb.



Ffigur C21 – Graff yn dangos Troseddau Casineb y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt, o ffigurau Cymorth i Ddioddefwyr

Mae lefelau ymdeimlad o berthyn wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ledled Gwent. Mae data'n dangos mai Sir Fynwy sydd â'r niferoedd mwyaf o unigolion sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, a Thorfaen sydd â'r niferoedd lleiaf. Gall ardaloedd o amddifadedd olygu nad oes gan unigolion ddigon o incwm gwario i gymryd cymaint o ran mewn gweithgareddau cymunedol, neu efallai na fydd ganddynt amser i gymryd rhan oherwydd eu horiau gwaith/math o swydd. Gallai hyn, yn ei dro, olygu bod mwy o bobl yn teimlo'n unig neu'n ynysig, neu'n teimlo nad ydynt yn rhan o'u cymuned. Unwaith eto, mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar ymdeimlad rhywun o berthyn i'w gymuned, naill ai am ei fod yn fwy ynysig neu am ei fod wedi rhyngweithio mwy â'r cymdogaeth.



Ffigur C22 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ledled Gwent ³²

5. Y celfyddydau a threftadaeth

Gall y celfyddydau a threftadaeth ddod â phobl ynghyd, eu cysylltu â'r lleoedd lle maent yn byw, eu cysylltu â'r gorffennol ac ehangu eu gorwelion. Maent yn cyfrannu at yr economi leol gan ddarparu swyddi a refeniw. Hefyd, gall cymryd rhan gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Mae data'n dangos y bu lleihad yn nifer y bobl sy'n mynd i weithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth, neu'n cymryd rhan ynddynt, o leiaf deirgwaith y flwyddyn, ac eithrio Caerffili lle y bu cynnydd bach. ³³ Bydd y pandemig, a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, wedi cael effaith sylweddol ar allu pobl i fynd i ddigwyddiadau a gweithgareddau neu gymryd rhan ynddynt. Er y bydd nifer y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau o'r fath yn y cnawd wedi lleihau, mae'n bosibl y bydd nifer y digwyddiadau rhithwir a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt wedi cynyddu, yn enwedig ymhlith pobl y mae'n anos iddynt fynd o le i le.

Mae gwybodaeth am gymunedau yn dweud wrthym y bu cynnydd yn y diddordeb mewn celf a chrefft yn ystod y pandemig. Oherwydd cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, roedd gan lawer o bobl fwy o amser hamdden ac felly gwnaethant ddechrau dilyn hobiau newydd yn y maes hwn.

Gall Gwent ddisgwyl mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn y dyfodol oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Gallai hyn effeithio ar y dirwedd leol ac ar asedau treftadaeth a'u gallu i gyfrannu at ddiwylliant ehangach a'r economi.



Ffigur C23 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n mynd i weithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth, neu'n cymryd rhan ynddynt, o leiaf deirgwaith y flwyddyn ledled Gwent

Unwaith eto, mae'n bosibl mai lefelau amddifadedd a faint o arian sydd gan bobl i'w wario ar y celfyddydau a diwylliant yw'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn. Rheswm arall posibl yw bod llai o leoedd ar gael i ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant.

5.1 Y celfyddydau

Ers 1993 (Oedolion) a 2007 (Plant a Phobl Ifanc), mae Cyngor Celfyddydau Cymru³⁴ wedi cynnal arolygon presenoldeb a chyfranogiad blynyddol yn cymharu cyfartaledd Cymru â nifer o ranbarthau, gan gynnwys y De-ddwyrain (Gwent).

Region	2017	2018	2019
Gwent	78.1%	↑ 84.4%	↑ 88.4%
Wales	80.7%	↑ 84.6%	↑ 86.8%

Ffigur C24 – Tabl yn dangos canran yr oedolion a aeth i weld unrhyw ffurf ar gelfyddyd unwaith neu fwy y flwyddyn ledled Gwent a Chymru yn ystod 2017-19

Mae ffynonellau data eraill yn dangos bod lefelau presenoldeb ar gyfer oedolion wedi cynyddu'n gyson ledled Cymru ac yn rhanbarth Gwent ers 2017, gyda'r cyfartaledd ledled Gwent yn 2019 bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Region	2017	2018	2019
Gwent	45.9%	↑ 48.3%	↑ 57.2%
Wales	45.8%	↓ 45.6%	↑ 49.3%

Ffigur C25 – Tabl yn dangos canran yr oedolion a gymerodd ran mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith neu fwy y flwyddyn ledled Gwent a Chymru yn ystod 2017-19

Mae lefelau cyfranogiad ar gyfer oedolion ledled Gwent wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2017 ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn rheolaidd.

Region	2017	2018	2019
Gwent	79.5%	83.4%	80.5%
Wales	86.5%	89.3%	86.7%

Ffigur C26 – Tabl yn dangos canran y plant a phobl ifanc a aeth i unrhyw ddigwyddiad celfyddydol unwaith neu fwy y flwyddyn ledled Gwent a Chymru yn ystod 2017-19

Gwnaeth lefelau presenoldeb ar gyfer plant a phobl ifanc ostwng ledled Cymru a rhanbarth Gwent yn 2019, gyda Gwent islaw cyfartaledd Cymru yn gyson.

Region	2017	2018	2019
Gwent	80.2%	82.2%	85.2%
Wales	87.4%	87.0%	86.1%

Ffigur C27 – Tabl yn dangos canran y plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith neu fwy y flwyddyn ledled Gwent a Chymru yn ystod 2017-19

Mae lefelau cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cynyddu ledled Gwent ers 2017, ond wedi gostwng ledled Cymru. Er bod y bwlch hwn wedi lleihau, mae'r cyfartaledd ledled Gwent yn 2019 fymryn islaw cyfartaledd Cymru o hyd.

Mae'n bwysig nodi nad yw effaith pandemig COVID-19 i'w gweld yn y ffigurau hyn ac y bydd yr effaith ar niferoedd ymwelwyr a lefelau cyfranogiad yn y sector hwn yn sylweddol. Mae'r proffiliau canlynol yn cynnig arwydd cynnar o effaith COVID-19 ar sector y celfyddydau a rhywfaint o'r cyllid sydd wedi cael ei gyfeirio i gynnal y sector a'r ddarpariaeth o weithgarwch diwylliannol yng nghymunedau Gwent.

[Cyngor Celfyddydau Cymru – Proffil Blaenau Gwent](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru – Proffil Caerffili](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru – Proffil Sir Fynwy](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru – Proffil Casnewydd](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru – Proffil Torfaen](#)

5.2 Digwyddiadau diwylliannol

Mae'r digwyddiadau diwylliannol a gynhelir drwy gydol y flwyddyn ledled rhanbarth Gwent yn adlewyrchu pa mor fywiog ac amrywiol yw treftadaeth ddiwylliannol a chryfder presennol gweithgarwch diwylliannol a arweinir gan y gymuned.

Mae digwyddiadau diwylliannol mawr ledled y rhanbarth yn arwain at fanteision economaidd ac yn codi proffil safleoedd penodol, gan ddenu ymwelwyr o'r DU a thu hwnt. Mae digwyddiadau bach a gynhelir gan gymunedau yn helpu i feithrin ymdeimlad o gydlyniant cymunedol a pherthyn, a gallant gynnig canolbwynt ar gyfer gweithgarwch rhyngddiwylliannol sy'n pontio'r cenedlaethau.

Isod ceir disgrifiadau o ddim ond rhai enghreifftiau o'r digwyddiadau diwylliannol a gynhelir ledled y rhanbarth.

- Bydd gŵyl y Caws Mawr yn dychwelyd fel digwyddiad byw ym mis Gorffennaf 2022 yn dilyn fersiynau ar-lein yn 2020 a 2021 oherwydd pandemig COVID-19. Mae'n

seiliedig ar farchnad gaws ac yn cynnwys arddangosiadau coginio a cherddoriaeth fyw gan artistiaid lleol. Caiff Castell Caerffili ei drawsnewid yn wersyll canoloesol gydag arddangosfeydd a brwydrau. Mae'r ŵyl, a gaiff ei threfnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru, yn denu llawer iawn o ymwelwyr dros y tri diwrnod (80,000 yn 2012) a hon yw'r unig ŵyl ar gyfer caws yn unig yng Nghymru.

- Bydd Gŵyl Fwyd y Fenni yn dychwelyd fel digwyddiad byw ym mis Medi 2021. Mae ganddi enw neilltuol o dda fel lle i gogyddion, busnesau bwyd, newyddiadurwyr, ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd ddod ynghyd, ac mae'n cynnwys cyfleoedd i flasau cynnyrch, dosbarthiadau meistr, gwersi coginio ymarferol a thrafodaethau amserol. Gan ymgysylltu â chogyddion, sylwebyddion a newyddiadurwyr dylanwadol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, mae'r ŵyl wedi tyfu'n un o'r digwyddiadau bwyd uchaf eu proffil ym Mhrydain, gan ddenu mwy na 30,000 o ymwelwyr i'r Fenni. Hefyd, amcangyfrifir ei bod yn cael effaith gwerth £4 miliwn ar yr economi leol yn Sir Fynwy.
- Cynhelir Gŵyl y Tŷ Dur ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, uwchben Glynebwy ym Mlaenau Gwent, a hon, yn swyddogol, yw gŵyl gerdd uchaf y DU. Gall ddal 5000 o bobl, ac mae wedi denu llawer o fandiau roc uchel eu proffil ers iddi gael ei sefydlu 11 mlynedd yn ôl. Mae hefyd wedi denu ymwelwyr o wledydd tramor, wedi codi ymwybyddiaeth o'r ardal ac wedi cyfrannu at yr economi leol.
- Mae Sioe Brynbuga wedi bod yn cael ei chynnal bob mis Medi ers 1844, gan greu canolbwynt pwysig yn y flwyddyn ffermio i gymunedau gwledig ledled Gwent. Caiff ei threfnu gan Glwb Ffermwyr Brynbuga ac mae'n dathlu ffermio a bywyd gwledig yn Sir Fynwy. Mae'n un o'r Sioeau Amaethyddol Undydd mwyaf yn y DU. Fe'i cynhelir ar Faes Sioe Brynbuga, sy'n 100 erw o faint ac wedi'i leoli ger pentref Gwernesni, a bydd dros 300 o fasnachwyr yn bresennol bob blwyddyn.
- Cynhelir trydydd Marathon a 10K Cymdeithas Porthladdoedd Prydain Casnewydd ddydd Sul 24 Hydref 2021, ar ôl cael ei ohirio yn 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r digwyddiad yn un poblogaidd iawn ar galendr rhedeg Cymru, gyda llwybr sy'n cynnig tirnodau eiconig, fel Pont Gludo'r ddinas a golygfeydd godidog Gwastadeddau Gwent, ynghyd â bywyd gwyllt yr arfordir a phentrefi canoloesol prydferth. Mae'r ras 10K ategol, sy'n denu rhai o athletwyr gorau'r DU, yn rhoi cyfle i redwyr o bob gallu i gymryd rhan yn yr ŵyl redeg hon.
- Mae Diwrnod Treftadaeth Blaenafon yn dathlu statws y dref fel Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r sioe gwisgoedd treftadaeth yn uchafbwynt blynyddol i'r dref, ac mae iddi thema wahanol bob blwyddyn. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill mae ffair o oes Fictoria, diddanwyr stryd, stondinau crefft, dawnswyr, cerddoriaeth fyw a chynigion arbennig gan siopau/busnesau lleol.
- Ym Mlaenau Gwent, mae Gŵyl Bevan yn parhau i ddatblygu ac, er iddi gael ei gohirio am ddwy flynedd, mae'n debygol o ddychwelyd yn 2022. Bydd Gŵyl Gyfeiriannu JK2022 y DU, sy'n denu athletwyr elfit a hamdden o bob cwr o'r byd, yn cael ei chynnal yn y sir hefyd.
- Gweler adran 5.3 yn y bennod ar Lesiant Economaidd am ragor o fanylion am effaith economaidd twristiaeth yng Ngwent. Hefyd, mae'r adran ar Hamdden, mynediad a

thwristiaeth yn y bennod amgylcheddol yn ystyried cyfraniad gwasanaethau ecosystemau at lesiant yng Ngwent, o ran darparu gwasanaeth hanfodol ar gyfer mynediad, hamdden a thwristiaeth.

5.3 Amgueddfeydd, treftadaeth a thirweddau

Er bod atyniadau tirwedd a threftadaeth yn chwarae rhan hanfodol yn yr economi dwristiaeth, mae angen i ni hefyd gydnabod eu pwysigrwydd i ymdeimlad pobl o berthyn a'u hunaniaeth ddiwylliannol.

Y Dirwedd Naturiol

Mae tirwedd naturiol Gwent yn amrywio'n fawr ledled y rhanbarth, o gymoedd ucheldirol a bryniau Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen i ffermdir coediog Dyffryn Gwy yn Sir Fynwy a Gwastadeddau Gwent yng Nghasnewydd. Mae'r ffordd y mae mynediad at fannau yn yr awyr agored ac, yn enwedig at amgylchedd naturiol o ansawdd da, yn cyfrannu at lesiant yn cael ei gydnabod fwyfwy. Daeth hyn yn fwy amlwg byth yn ystod pandemig COVID-19 pan oedd cyfyngiadau symud cenedlaethol a rhanbarthol yn golygu bod pobl wedi dod yn fwy dibynnol ar fannau lleol yn yr awyr agored ar gyfer ymarfer corff a gweithgareddau hamdden. Mae gweithgareddau fel cerdded, rhedeg, beicio, gwylio adar a nofio dŵr gwyllt i gyd yn galluogi pobl i gadw'n heini ac yn egnïol a mwynhau'r byd naturiol o'u cwmpas. Hefyd, mae llawer o drigolion Gwent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol, fel helpu i gynnal a chadw llwybrau mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymhlith cerddwyr, glanhau traethau ac afonydd a chodi sbwriel, a chynnal a chadw neu greu cynefinoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth yn lleol.

Ymhlith y risgiau a fydd yn wynebu'r dirwedd naturiol werthfawr hon yn y dyfodol mae effeithiau newid yn yr hinsawdd a fydd yn arwain at golli cynefinoedd yn ogystal â llifogydd ac erydu, y posibilrwydd o ddatblygu ardaloedd naturiol ar gyfer tai neu weithgarwch masnachol ac, mewn rhai ardaloedd, mae gorddefnydd o'r amgylchedd naturiol ar gyfer hamdden yn mynd yn broblem.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

Gall pobl deimlo balchder mewn safleoedd sydd o bwys hanesyddol yn eu hardal leol a mwynhau tirweddau hanesyddol gwarchodedig. Hefyd, gall safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd a thirweddau hanesyddol gynnig cyfle i lawer o bobl wirfoddoli a mwynhau eu hamgylchedd a chysylltu ag ef.

Mae gan Went amrywiaeth eang o safleoedd hanesyddol, tirweddau ac amgueddfeydd. O ganlyniad i bandemig COVID-19, bu'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn ar gau am gyfnodau hir yn 2020-21. Nid yw effeithiau llawn hyn yn glir eto, ac mae'n bosibl y bydd cyllid wedi'i dargedu yn lleihau rhai o'r canlyniadau negyddol posibl i'r sector.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyhoeddi blaenoriaethau â ffocws o'r newydd ar gyfer prosiectau treftadaeth yn 2021-22 mewn ymateb i'r materion a'r tueddiadau a ddaw i'r amlwg o bandemig COVID-19. Bydd yn rhoi blaenoriaeth i gyllido prosiectau treftadaeth sy'n gwneud y canlynol:

- rhoi hwb i'r economi
- helpu i ddatblygu sgiliau a chreu swyddi
- cefnogi llesiant
- creu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw
- gwella cadernid sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth

Ymhlith yr enghreifftiau o leoedd hanesyddol ac atyniadau treftadaeth nodedig ledled Gwent mae:

- Pont Gludo Casnewydd
- Tŷ Tredegar, Casnewydd
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion – Casnewydd
- Amgueddfa Lofaol Cymru, Pwll Mawr, Torfaen
- Safleoedd Treftadaeth y Byd Blaenafon, Torfaen
- Mynwent Colera Cefn Golau, Blaenau Gwent
- Tyrau Crwn Nant-y-glo, Blaenau Gwent
- Gwaith Haearn Sirhywi, Blaenau Gwent
- Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy
- Castell Rhaglan, Sir Fynwy
- Castell y Fenni, Sir Fynwy
- Castell Caerffili, Caerffili
- Y Tŷ Weindio, Caerffili
- Tŷ a Pharc Bedwellte
- Gardd Goffa Cwm
- Heneb y Gwarcheidwad
- Gardd Goffa Senghennydd

Mae [Mynegai Treftadaeth y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach \(RSA\)](#) (gweler y tabl yn Adran 11) yn rhestru awdurdodau lleol ledled Cymru yn ôl sgôr gyffredinol, ar sail potensial, asedau a gweithgareddau treftadaeth ynghyd ag amrywiaeth o barthau.

Heritage Index Rank 2020: Total Scores											
Overall		Heritage Potential		Assets		Activities					
LA	Change from 2016	LA	Change from 2016	LA	Change from 2016	LA	Change from 2016				
2 Monmouthshire	→ 0	1 Torfaen	→ 0	2 Newport	→ 0	6 Monmouthshire	→ 0				
6 Newport	↑ 5	2 Blaenau Gwent	↓ -10	3 Torfaen	→ 0	10 Newport	↑ 5				
10 Torfaen	↑ 4	4 Newport	↑ 2	4 Monmouthshire	→ 0	19 Blaenau Gwent	↓ -7				
15 Blaenau Gwent	↑ 1	10 Caerphilly	↑ 1	6 Blaenau Gwent	↑ 6	20 Torfaen	→ 0				
22 Caerphilly	→ 0	11 Monmouthshire	↓ -4	19 Caerphilly	→ 0	22 Caerphilly	→ 0				

Heritage Index Ranks 2020: Domains											
Historic Built Environment		Museums, Archives & Artefacts		Industrial Heritage		Parks & open space					
LA	Change from 2016	LA	Change from 2016	LA	Change from 2016	LA	Change from 2016				
1 Torfaen	↑ 7	4 Newport	↑ 2	1 Newport	↑ 4	3 Monmouthshire	↑ 1				
2 Monmouthshire	↓ -1	5 Blaenau Gwent	↑ 5	2 Torfaen	↓ -1	4 Blaenau Gwent	↑ 3				
15 Newport	→ 0	8 Monmouthshire	→ 0	4 Monmouthshire	→ 0	13 Caerphilly	→ 0				
18 Blaenau Gwent	↑ 4	15 Torfaen	↓ -3	12 Blaenau Gwent	↑ 6	20 Newport	↑ 1				
21 Caerphilly	↓ -1	22 Caerphilly	→ 0	20 Caerphilly	↑ 2	21 Torfaen	↓ -3				

Landscape and natural heritage		Culture & Memories		General							
LA	Change from 2016	LA	Change from 2016	LA	Change from 2016						
2 Newport	→ 0	3 Monmouthshire	↓ -1	9 Monmouthshire	→ 0						
7 Torfaen	↑ 12	8 Newport	↓ -4	14 Torfaen	→ 0						
12 Blaenau Gwent	↓ -11	15 Blaenau Gwent	→ 0	18 Caerphilly	↓ -2						
15 Monmouthshire	↓ -6	20 Torfaen	↑ 1	19 Newport	→ 0						
18 Caerphilly	↑ 3	22 Caerphilly	↓ -2	21 Blaenau Gwent	→ 0						

Ffigur C28 – Ffigur yn dangos Safle Awdurdodau Lleol Gwent yn y Mynegai Treftadaeth ar gyfer 2020 ³⁵

Yn 2020, roedd amrywiaeth enfawr rhwng safleoedd ardaloedd awdurdodau lleol Gwent, a oedd yn ymddangos fel a ganlyn: Sir Fynwy (2^{il}), Casnewydd (6^{ed}), Torfaen (10^{fed}), Blaenau Gwent (15^{fed}) a Chaerffili (22^{ain}). O gymharu â 2016, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Gwent mewn safle uwch, a'r unig eithriadau oedd Sir Fynwy a Chaerffili a arhosodd yn yr un safle.

Ar gyfer Potensial o ran Treftadaeth (yr awdurdod yn y safle uchaf sydd â'r mwyaf o botensial digyffwrdd yn ei dreftadaeth), yr awdurdod lleol yng Ngwent â'r mwyaf o botensial oedd Torfaen (1^{af}), ac yna Blaenau Gwent (2^{il}), Casnewydd (4^{ydd}), Caerffili (10^{fed}) a Sir Fynwy (11^{eg}). Mae hyn yn dangos y gallai gweithgarwch ddigwydd yn y tri awdurdod lleol cyntaf yn y rhestr hon er mwyn gwireddu potensial eu hasedau treftadaeth yn llawn. Ymhlith y risgiau posibl i weithgarwch o'r fath yn y dyfodol mae diffyg adnoddau neu ddiffyg gwybodaeth arbenigol ar lefel leol. Fodd bynnag, os na chaiff potensial yr asedau treftadaeth dan sylw ei wireddu, ni chaiff yr economi leol ei hybu gan dwristiaeth a gweithgarwch hamdden ychwanegol a gallai unrhyw asedau treftadaeth ffisegol ddirywio a chael eu colli i genedlaethau'r dyfodol.

5.4 Twristiaeth

Gwent yw'r porth i Gymru i lawer o ymwelwyr sy'n teithio o rannau eraill o'r DU a thu hwnt. Mae'r sector twristiaeth yn cynnig manteision economaidd, amgylcheddol, diwylliannol ac iechyd sy'n cyfoethogi bywydau ymwelwyr a chymunedau lleol. Yn aml, bydd tirweddau a

safleoedd hanesyddol, fel y tanlinellir yn yr adrannau uchod, yn ogystal ag atyniadau i ymwelwyr ac atyniadau hamdden, yn werthfawr iawn i'w cymunedau lleol, ac yn cyfrannu at iechyd economaidd yr ardal hefyd. I gael rhagor o wybodaeth am effaith economaidd twristiaeth, gweler adran 5.3 yn y bennod ar Lesiant Economaidd. Roedd twristiaeth yn werth mwy na £950 miliwn i Went cyn pandemig COVID-19.

5.5 Yr Economi Greadigol

Mae'r diwydiannau creadigol wedi dod yn un o'r rhannau o economi Cymru sy'n tyfu gyflymaf. Mae'r sector yn creu swyddi ac yn helpu i hyrwyddo Cymru a'i diwylliant a'i thalent ar y llwyfan rhyngwladol. Ym mis Ionawr 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru asiantaeth Cymru Greadigol er mwyn hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae pandemig COVID-19 wedi amharu'n ddifrifol ar y diwydiannau creadigol, yn enwedig cerddoriaeth a ffilm. Fodd bynnag, mae clystyrau lleol o arloesi, yn enwedig o ran technoleg ddigidol, yn parhau i ffynnu ac yn rhan o'r broses o bontio i economi a ategir gan dechnolegau newydd sy'n datblygu, gan ddisodli rhai o'r elfennau traddodiadol a oedd yn ysgogi economi Cymru o'r blaen. Mae'r sectorau newydd hyn sy'n datblygu yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth gwerthfawr ar lefel leol ac mae darparwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch ledled Gwent yn cefnogi'r broses bontio hon drwy gynnig hyfforddiant a chymwysterau sydd â'r nod o sicrhau gweithlu hynod fedrus ar gyfer y diwydiannau newydd hyn.

Troednodyn: [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

6. Gweithgareddau hamdden a chwaraeon

Mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan bwysig iawn o ran helpu pobl i fyw bywydau iach a chyflawni eu potensial. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i bobl gwrdd yn gymdeithasol, cael hwyl yn yr awyr agored neu roi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi bod Cymru'n debygol o fod yn gynhesach yn y dyfodol³⁶. Gall hyn arwain at fwy o gyfleoedd i gynnal gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored yng Ngwent yn y dyfodol.

Gallai Gwent y Dyfodol fod yn lle iachach petai pobl yn ymgymryd â mwy o weithgarwch corfforol.

6.1 Hamdden


Yng Nghymru, bu 90% yn llai o ymweliadau â'r rhan fwyaf o goedwigoedd a gwarchodfeydd natur cenedlaethol a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud o fis Mawrth tan fis Mehefin 2020, ond gwelwyd cynnydd sylweddol pan laciwyd y cyfyngiadau yn ystod yr haf, o fis Gorffennaf tan fis Medi, gyda nifer yr ymwelwyr â rhai safleoedd yn dyblu, bron, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar dwristiaeth hefyd, gyda chyfyngiadau symud yn effeithio ar fusnesau a'r economi estynedig yn ystod rhai o adegau gwyliau prysuraf y flwyddyn fel arfer. Mae llawer o bobl bellach yn dewis aros yn y DU i fynd ar deithiau undydd

a gwyliau byr yn hytrach na hedfan dramor, sy'n dda i'r economi a'r amgylchedd byd-eang, ond yn rhoi mwy o bwysau ar rai safleoedd twristiaeth poblogaidd.

6.2 Cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i 12,300 o bobl a oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon neu weithgarwch corfforol.



Ffigur C29 – Graff yn dangos canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos ledled Gwent ³⁷

O blith yr unigolion a gwblhaodd yr arolwg yn ardal Gwent, roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgarwch corfforol				
% yr unigolion a ddywedodd "ydw"	16/17	17/18	18/19	19/20
Blaenau Gwent	45	49	56	43
Caerffili	56	56	67	56
Sir Fynwy	70	70	64	62
Casnewydd	69	67	65	63
Torfaen	61	59	65	59

Ffigur C34 – Tabl yn dangos canran y bobl a oedd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgarwch corfforol ledled ardaloedd awdurdodau lleol Gwent ³⁸

Dangosodd yr arolwg mai'r ardal â'r niferoedd lleiaf o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol oedd Blaenau Gwent, a'r ardal â'r niferoedd mwyaf oedd Sir Fynwy. Fodd bynnag, roedd maint y sampl yn gyfyngedig, sy'n ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau ehangach am weithgarwch corfforol yng Ngwent yn gyffredinol.

Gall mynediad i fannau gwyrdd a llwybrau cerdded neu gyfleusterau hamdden o fewn cyrraedd hawdd ei gwneud hi'n haws i drigolion wneud ymarfer corff. Mae'n bosibl bod cyfrifoldebau gwaith neu ofal pobl yn cael effaith hefyd.

Mae digwyddiadau Parkrun wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf, a chaiff nifer ohonynt eu cynnal bob wythnos ledled rhanbarth Gwent. Casnewydd sydd â'r nifer mwyaf, sef tri, ond, yn annisgwyl ddigon, nid oes gan Sir Fynwy ddim un.

	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen	Gwent
Nifer y digwyddiadau Parkrun	2	2	0	3	2	9

Ffigur C35 – Tabl yn dangos nifer y digwyddiadau Parkrun a gynhelir ledled Gwent ³⁹

Cafodd y digwyddiad Parkrun â'r nifer mwyaf o bobl yn bresennol ei gynnal yng Nghasnewydd yn 2016, ond roedd pedwar digwyddiad yn fwy poblogaidd nag erioed yn ystod 2020. Bydd angen gwneud rhagor o waith dadansoddi yn y dyfodol er mwyn dangos effeithiau COVID-19 ar y niferoedd sy'n cymryd rhan, naill ai fel gwirfoddolwyr neu fel rhedwyr, mewn digwyddiadau Parkrun.

Enw'r Parkrun	Ardal Awdurdod Lleol	Nifer Mwyaf o Bobl	Blwyddyn y Nifer Mwyaf o Bobl
Casnewydd	Casnewydd	711	2016
Glan yr Afon	Casnewydd	628	2019
Bryn Bach	Blaenau Gwent	481	2020
Penalltau	Caerffili	375	2020
Aber-bîg	Blaenau Gwent	364	2020
Cwmbrân	Torfaen	284	2019
Coed Cefn-pwll-du	Caerffili	237	2020
Pont-y-pŵl	Torfaen	197	2019
Rogiet	Casnewydd	138	2018

Ffigur C36 – Tabl yn dangos y niferoedd a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau Parkrun a gynhaliwyd ledled Gwent ⁴⁰

Plant a chwaraeon

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, a gynhaliwyd gan Chwaraeon Cymru yn 2015 a 2018, yn dangos i ni y bu lleihad cyffredinol mewn gweithgarwch ymhlith plant ysgol, gyda nifer y plant nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch corfforol yn cynyddu a nifer y rhai sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos yn lleihau. Gall ffactorau megis diffyg adnoddau gan rieni i dalu am gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu ac argaeledd cyfleusterau lleol, a chanfyddiadau ynghylch diogelwch plant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau i ffwrdd o'r cartref neu'r ysgol, hefyd effeithio ar lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant. Mae'n bosibl y bydd gwaith dadansoddi yn y dyfodol hefyd yn dangos bod COVID-19 wedi gostwng lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant ymhellach.

%	Dim gweithgarwch cyson			Unwaith yr wythnos			Ddwywaith yr wythnos			Deirgwaith neu fwy yr wythnos		
	2015	2018		2015	2018		2015	2018		2015	2018	

Blaenau Gwent	32.7	34.9	↑	11.4	11.8	↑	12.9	15.6	↑	43.0	37.7	↓
Caerffili	31.1	32.4	↑	9.8	10.2	↑	12.0	13.7	↑	47.1	43.7	↓
Sir Fynwy	27.3	25.7	↓	11.0	13.1	↑	12.9	16.3	↑	48.8	45.0	↓
Casnewydd	27.6	23.0	↓	9.3	7.8	↓	13.2	11.1	↓	49.9	58.1	↑
Torfaen	32.2	33.2	↑	10.4	11.1	↑	12.5	14.5	↑	45.0	41.1	↓

Ffigur C37 – Tabl yn dangos cyfranogiad mewn chwaraeon gan blant ysgol ledled Gwent ⁴¹

Mae asesiadau cyfleoedd chwarae digonol yn rhoi gwybodaeth i ni am y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol ledled y rhanbarth ac a ydynt yn diwallu anghenion pobl ifanc sy'n byw yng Ngwent ai peidio.

Y prif faterion sy'n berthnasol i Went yw

- sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae,
- sicrhau y caiff cyfleoedd chwarae eu hintegreiddio ym mhob polisi ac agenda weithredu berthnasol,
- sicrhau bod opsiynau trafndiaeth hygyrch a fforddiadwy ar gael er mwyn cefnogi mynediad cyfartal at gyfleusterau chwarae.

Fodd bynnag, ar y cyfan, mae asesiadau cyfleoedd chwarae digonol ledled Gwent yn dangos bod anghenion yn cael eu diwallu'n dda.

Mae asesiad cyfleoedd chwarae pob awdurdod lleol ar gael yma:

[Blaenau Gwent](#) ⁴²

[Caerffili](#) ⁴³

[Sir Fynwy](#) ⁴⁴

[Casnewydd](#) ⁴⁵

[Torfaen](#) ⁴⁶

7. Cryfderau cymunedau

Mae cymunedau Gwent yn amrywiol dros ben. Mae rhai'n drefol a rhai'n wledig ond, ym mhob ardal yn y rhanbarth, ceir enghreifftiau o aelodau o'r gymuned yn cydweithio i wella eu hamgylchedd lleol a bywydau'r bobl sy'n byw yno.

Ceir llawer o enghreifftiau o brosiectau cymunedol sydd wedi'u cysylltu drwy fframwaith y Rhwydweithiau Llesiant Integredig, yn ogystal â phrosiectau anffurfiol a gaiff eu sefydlu a'u rheoli gan bobl leol ar gyfer eu cymunedau. Isod gwelir rhai enghreifftiau sy'n dangos cryfder y gweithgarwch cymunedol cadarnhaol ledled Gwent.

8.1 Blaenau Gwent

Gweithlu Cymunedol Tredegar

Grŵp a sefydlwyd gan Cymru Creations ar ddechrau pandemig COVID-19 yw Gweithlu Cymunedol Tredegar. Busnes buddiannau cymunedol bach sy'n arbenigo mewn gwneud ffilmiau yw Cymru Creations. Roedd y Gweithlu'n cynnig amrywiaeth o gymorth mewn ymateb i argyfwng COVID-19 ym Mlaenau Gwent. Cydweithiodd Timau Ymateb Lleol y cyngor yn agos â'r Gweithlu drwy gydol y pandemig i gael gafael ar gymorth lleol i drigolion a oedd yn cael eu gwarchod yr oedd angen presgripsiynau neu nwyddau arnynt. Tyfodd y prosiect yn gyflym ac, ymhen dim, roedd yn grŵp o 30 o wirfoddolwyr a oedd yn derbyn 200 o alwadau bob dydd ac yn danfon 250 o fagiau o barseli bwyd am ddim bob wythnos.

8.2 Caerffili

Canolfan Rhagoriaeth mewn Chwaraeon

Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yn darparu cyfleusterau pêl-droed a rygbi er mwyn helpu amrywiaeth o glybiau a sefydliadau ledled y Fwrdeistref Sirol.

Hefyd, mae'r Ganolfan yn cefnogi addysg chwaraeon drwy bartneriaethau cydweithredol â Choleg y Cymoedd, ac mae'n cynnal Digwyddiad Anabledd y Chwe Gwlad.

Mae'r Ganolfan yn helpu i wireddu gweledigaeth Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniöl 2019 – 2029, sef annog trigolion i ddilyn ffyrdd iach o fyw a'u helpu i fod yn fwy egniöl, a hynny'n amlach.

8.3 Casnewydd

Gwyrddu Maendy

Mae Maindee Unlimited, sef grŵp o drigolion a sefydliadau partner, yn gweithio i wella mannau gwyrdd a chreu rhai newydd yn ardal Maendy yng Nghasnewydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm Gwyrddu Maendy wedi trawsnewid tir Canolfan Gymunedol Eveswell, gan greu gwelyau uchel ar gyfer tyfu bwyd, plannu perllan a chreu gardd law. Datblygwyd y lle o fewn fframwaith rhaglen 'Bwyd am Oes'. Mae'n cynnig cyfleoedd i grwpiau ag anawsterau dysgu, ysgolion a thrigolion fynd yno.

Hefyd, mae cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer trosglwyddo hen floc o doiledau yn gaffi ac yn fan cymunedol i bawb. Ymhlith y cyfleusterau mae ardal berfformio awyr agored, wal ddringo

i blant ac ardal blannu ar thema coetir wrth ymyl y caffi. Caiff y caffi ei redeg gyda'r nod o fod yn ddiwastraff a sicrhau ymddygiadau nad ydynt yn cael fawr ddim effaith ar yr amgylchedd.

8.4 Torfaen

Tŷ Pant-teg

Drwy gydol pandemig COVID-19, gwelwyd llawer iawn o gymorth cymunedol yn Nhorfaen, lle y daeth gwirfoddolwyr ynghyd mewn amrywiaeth o leoliadau i roi cymorth i'r bobl â'r angen mwyaf amdano. Dim ond un enghraifft o'r gwaith ardderchog a wneir gan wirfoddolwyr yn y gymuned yw Tŷ Pant-teg.

Ar ddechrau pandemig COVID-19, bu gwirfoddolwyr yn Nhŷ Pant-teg yn helpu i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant ysgol lleol. Yn sgil hyn, crëwyd banc bwyd i gefnogi'r gymuned gyfan. Aeth gwirfoddolwyr hefyd ati i greu partneriaethau ag elusennau Cymorth i Ferched, Women's Refuge, Age Connect a thîm Cysylltu Cymunedau. Mae'r gwasanaeth yn dal i fynd ac mae wedi cefnogi banciau bwyd eraill yn y sir. Hefyd, mae cysylltiadau gwaith agos ag ysgolion lleol wedi helpu i ganfod teuluoedd y mae angen rhagor o gymorth arnynt drwy'r rhaglen prydau ysgol am ddim.

8.5 Sir Fynwy

Mae rhaglen wirfoddoli Sir sy'n Gwasanaethu yn Sir Fynwy yn helpu i dynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn y sir, a'u cefnogi. Mae pecyn cymorth a rhwydwaith gwirfoddoli ar waith ac mae hyfforddiant ar arwain gwaith gwirfoddoli yn cael ei roi i staff sy'n cefnogi gwirfoddolwyr. Mae system reoli ddigidol VolunteerKinetic ar waith ac mae hyrwyddwyr ardal y gwasanaeth hefyd wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau y caiff yr holl wirfoddolwyr, nawr ac yn y dyfodol, eu recriwtio drwy'r sianeli priodol. Cynhaliodd GAVO a'r cyngor ddigwyddiad 'Pŵer Cymuned' ym mis Mawrth 2020, a oedd yn gyfle i wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau ddod ynghyd i ganolbwyntio ar bob agwedd ar gam llesiant Dinasyddiaeth Weithgar. Roedd 130 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, lle y cafodd egwyddorion Dinasyddiaeth Weithgar yn Sir Fynwy eu trafod a'u herio.

Ardaloedd cymunedol

Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
Ebwy Fawr	Basn Caerffili	Y Fenni	Canol y Ddinas	Blaenafon
Gogledd Ebwy Fach	Islwyn Isaf	Cas-gwent a Rhannau Isaf	Y Dwyrain a'r De-ddwyrain	Cwmbrân
De Ebwy Fach	Cwm Rhymni Uchaf	Afon Gwy	Y Gogledd-ddwyrain	Pont-y-pŵl
Sirhywi	Gorllewin Canol y Cymoedd	Trefynwy	Y Gogledd-orllewin	
		Glan Hafren	Y De-orllewin	
		Brynbuga a Rhaglan		

	Dwyrain Canol y Cymoedd			
--	----------------------------	--	--	--

8. Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Drwy gydol yr holiadur llesiant, gwnaeth trigolion o bob rhan o Went dynnu sylw at gyfleoedd ac awgrymu dulliau gwella a'n helpodd ni i ddarganfod ansawdd llesiant ledled Gwent.

Mae Llesiant Diwylliannol yn cwmpasu meysydd fel hunaniaeth, credoau a rennir ac ymddygiadau lleol. Wrth ddadansoddi safbwyntiau ymatebwyr ar ansawdd llesiant yng Ngwent, mae'n bwysig deall bod Llesiant Diwylliannol hefyd yn cynnwys mesurau fel twristiaeth, amrywiaeth, iaith a chyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol.

Roedd prydfferthwch Gwent yn thema amlwg drwy'r holl adborth yn yr arolwg. Ym mhob rhan o'r rhanbarth, dywedodd pobl wrthym fod yr ardaloedd cefn gwlad a'r **mannau gwyrdd** cyfagos yn arbennig iddynt. Hefyd, pwysleisiodd pobl o bob rhan o'r rhanbarth **ansawdd yr ardal leol**, gan dynnu sylw at brydfferthwch eu hardal leol a'r ffordd y mae hyn yn helpu i **wella eu hiechyd meddwl**. Boed yn gamlesi, llwybrau cerdded, llwybrau beidio neu barciau a chaeau, mae'r gymuned yn teimlo'n angerddol am effaith y rhain ar eu llesiant. Mae'n amlwg bod mynediad i gefn gwlad yn bwysig iawn i drigolion Gwent, gan ei fod yn ymateb cyson yn ein dadansoddiad ymgysylltu (Gweler ffigur 1 am y tri ymateb mwyaf cyffredin i bob cwestiwn gan drigolion Gwent)

Mae cymunedau am i **gymaint o fannau gwyrdd â phosibl** fod ar gael iddynt ac am weld yr ardaloedd sydd eisoes ar gael yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn. Gofynnodd llawer o gymunedau am **fwy o le, parciau ac ardaloedd chwarae**.

Wrth ystyried yr hyn y gallwn ei wneud er mwyn helpu cymunedau i greu'r dyfodol y maent am ei weld, gofynnodd llawer o drigolion am **fwy o reolaeth** dros fannau gwyrdd ac i gymunedau gael **y pŵer i'w datblygu a chymryd cyfrifoldeb** amdanynt. Hefyd, codwyd rhai pryderon am y mannau gwyrdd a ddefnyddir ar gyfer datblygiadau tai.

Beth sy'n arbennig am eich cymuned?	Beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell?	Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	Sut le yr hoffech chi i'ch cymuned fod yn y dyfodol?	Sut y gall eich cymuned weithio gyda ni er mwyn sicrhau y bydd hynny'n digwydd?
Mynediad i fannau agored (136)	Mynediad i fannau agored (24)	Mynediad i fannau agored (56)	Mynediad i fannau agored (42)	Diwylliant (5)
Ardal Brydferth (56)	Twristiaeth (10)	Mynediad i lwybrau cerdded (11)	Amrywiaeth (18)	Digwyddiadau Cymunedol (4)
Natur Wledig (29)	Treftadaeth (6)	Diwylliant (10)	Mynediad i fannau glân (13)	Mynediad i fannau agored (3)


Yn ôl trigolion, roedd rhai o'r agweddau mwyaf arbennig ar fyw yng Ngwent yn ymwneud â mannau yn yr awyr agored, ac roedd dros hanner yr ymatebion i gwestiynau am lesiant diwylliannol yn canolbwyntio ar ansawdd a hygyrchedd.

(Ffigur: 1 – Y tri ymateb mwyaf cyffredin fesul

cwestiwn yn yr arolwg llesiant)

Mynegodd cymunedau ledled y rhanbarth ddiddordeb mewn mwy o weithgareddau diwylliannol, yn enwedig ym meysydd y celfyddydau a cherddoriaeth. Ceir **ymdeimlad cryf o gymuned** ledled Gwent a dywedodd trigolion eu bod yn awyddus i weld mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar gyfer eu cymunedau. Byddai hyn nid yn unig yn rhoi cyfle i bobl gwrdd ag eraill a mwynhau bywyd cymdeithasol yn eu hardal leol, ond hefyd yn hwb i dwristiaeth yng Ngwent drwy bethau fel amrywiaeth a rhoi **cyfleoedd i bobl ddefnyddio ieithoedd amrywiol** ym mhob rhan o Went.

Hefyd, mynegodd trigolion ddiddordeb mewn hanes lleol a chyfleoedd i arddangos tirnodau lleol a fydd yn cyfrannu at ragor o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth ledled Gwent, yn ogystal â **dysgu mwy am dreftadaeth** yng Ngwent.



(Ffigur 2 - : Yr hyn sydd, yn ôl trigolion, yn arbennig ac a fyddai'n gwneud eu cymuned yn well)

Ffig:

Access to open space	Mynediad i fannau agored
Community events	Digwyddiadau cymunedol
Attractive surroundings	Ardal brydferth
Heritage	Treftadaeth
Access to walking routes	Mynediad i lwybrau cerdded
Culture	Diwylliant
Tourism	Twristiaeth
Landscape	Tirwedd
Rurality	Natur wledig
Diversity	Amrywiaeth
History	Hanes
Access to places of...	Mynediad i fannau...
Access to clean space	Mynediad i fannau glân
Community Pride	Balchder cymunedol

Dywedodd mwy na 250 o ymatebion i'n harolwg ymgysylltu fod pobl sy'n byw yng Ngwent o'r farn bod mynediad i fannau agored a glesni yn agwedd arbennig ar eu cymunedau, gan ychwanegu eu bod yn hygyrch iawn ac yn helpu i wella llesiant trigolion.

Gwnaethant hefyd ddweud wrthym y byddai mwy o ddigwyddiadau diwylliannol yn helpu i ddod â thrigolion ynghyd fel cymuned. Yn unol â hyn, dywedodd trigolion wrthym y byddai digwyddiadau cymunedol yn helpu i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth

Bilingual Opportunities	Cyfleoedd dwyieithog
What is special about your community?	Beth sy'n arbennig am eich cymuned?
What would make your community a better place?	Beth fyddai'n gwneud eich cymuned yn lle gwell?

Mae'n amlwg o'n dadansoddiad bod llawer o gyfleoedd diwylliannol ar gael i drigolion yng Ngwent, a bod gallu cyrraedd mannau gwyrdd a glesni yn rhywbeth y mae trigolion yn ei werthfawrogi'n fawr. Rydym yn cydnabod y gellir defnyddio hyn i ddatblygu agweddau eraill ar lesiant diwylliannol, megis y gallu i fwynhau'r ardal leol a defnyddio mannau glân ym mhob rhan o'r rhanbarth heb unrhyw gyfyngiadau.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gellid gwneud mwy o waith i wella lesiant diwylliannol ledled Gwent mewn perthynas ag agweddau megis twristiaeth a balchder cymunedol. Dywedodd trigolion wrthym y byddai gwella'r agweddau hyn drwy ddulliau fel grwpiau codi sbwriel a hysbysebu harddwch Gwent yn well yn cyfrannu at wneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i bawb.

9. Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Mae gan ddiwylliant ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi llesiant pobl, nawr ac yn y dyfodol, o ddod â phobl ynghyd, helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a chynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, i helpu pobl i ddilyn ffyrdd iach o fyw a mwynhau'r amgylchedd.

O ran llesiant economaidd hirdymor, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi bod gan yr economi greadigol ran i'w chwarae o ran sicrhau ffyniant yr economi ranbarthol yn y dyfodol.⁴⁷ Mae angen i ranbarth Gwent sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r sylfaen gyflogaeth gywir i gael budd o'r cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â sector yr economi greadigol, a gall fod cyfleoedd i arallgyfeirio busnesau neu ddechrau busnesau newydd.

Hefyd, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd economaidd yn y dyfodol sy'n deillio o dwristiaeth a gweithgarwch chwaraeon a hamdden awyr agored yn sgil tymereddau cynhesach sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, gall Gwent hefyd ddisgwyl mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn y dyfodol, a allai effeithio ar hyfywedd gweithgareddau, gwyliau a digwyddiadau awyr agored. Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi risgiau i'r amgylchedd naturiol a threftadaeth yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol a thanau gwyllt⁴⁸. Gallai hyn effeithio ar y dirwedd leol ac asedau treftadaeth nodedig a'u gallu i gyfrannu at ein hanes diwylliannol cyffredin ac at yr economi ddiwylliannol.

O ran llesiant cymdeithasol hirdymor, gwyddom fod rhai o'n cymunedau yn wynebu anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd, a all effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau diwylliannol. Gallai'r ffordd y bydd y rhain yn datblygu yn y dyfodol, yn enwedig o ganlyniad i bandemig COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd, effeithio ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ac mae fforddiadwyedd a mynediad yn broblemau posibl yn hyn o beth. Dylai'r ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol alluogi pawb i gymryd mwy o ran ac arwain at ddatblygu gweithgareddau diwylliannol newydd ac amrywiol.

Un datblygiad posibl yn y dyfodol yw bod y duedd tuag at boblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o olygu y bydd mwy o bobl yn gallu cefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn ddibynol ar allu pobl i barhau i fwynhau lefelau rhesymol o iechyd corfforol ac iechyd meddwl y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn oedran gweithio ar hyn o bryd.

Mae'r wybodaeth yn Adran 3 uchod yn dangos ymgyrch dros wella darpariaeth Gymraeg yng Ngwent. Bydd hyn yn helpu i gynnal diwylliant a hunaniaeth Gymreig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a chreu lleoedd yn lleol. Bydd angen i'r cynnydd hwn gael ei gefnogi gan lefelau uwch byth o gynhwysiant digidol. Hefyd, bydd angen gwell cysylltedd digidol yn gyffredinol yn y dyfodol er mwyn sicrhau na fydd rhwystrau'n atal pobl rhag manteisio ar ddarpariaeth ddiwylliannol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a all gael eu cynnal a'u hyrwyddo fwyfwy ar lwyfannau digidol. Bydd angen i ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol, megis deallusrwydd artiffisial a roboteg, hefyd ystyried y Gymraeg.

Gallai cenedlaethau'r dyfodol yng Ngwent fod yn iachach petai pobl yn ymgymryd â mwy o weithgarwch corfforol. Fel yr amlinellwyd yn Adran 6, bydd angen mynediad da at gyfleusterau lleol i ategu hyn, yn ogystal â'r modd i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys taro cydbwysedd rhwng pwysau ar ddefnydd tir, er mwyn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau tirweddau a mannau awyr agored toreithiog Gwent.

Tynnodd y papur briffio diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021)sylw at gyfyngiadau'r dystiolaeth ynghylch gweithgarwch diwylliannol, a'r ffordd y bydd hyn yn effeithio ar allu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall y dirwedd ddiwylliannol a nodi tueddiadau a heriau'r dyfodol. Mae'n argymhell y dylai unrhyw werthusiad o dueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn gyfeirio at y ffaith nad oes digon o dystiolaeth o effaith pandemig COVID-19 ar sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar hyn o bryd. Mae'r cyfyngiadau symud wedi golygu bod llawer o leoliadau wedi bod ar gau am gyfnodau hir, ac mae'n bosibl bod rhai darparwyr diwylliannol wedi rhoi'r gorau i weithredu yn barhaol. Fodd bynnag, gan y bu'n rhaid i ddarparwyr newid natur eu gweithrediadau, mae'n bosibl y gwnaed rhai gwelliannau i hygyrchedd gan fod darpariaeth ddigidol wedi sicrhau bod cynnwys a oedd y tu hwnt i gyrraedd pobl o'r blaen ar gael iddynt erbyn hyn. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl bod y cynnydd mewn darpariaeth ddigidol wedi allgau pobl y mae'n anos iddynt ddefnyddio technoleg, pobl sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio technoleg, neu bobl ag anabledau synhwyaidd.

Mae'r papur briffio hefyd yn rhybuddio bod diffyg dystiolaeth a data cadarn yn golygu y bydd yn parhau i fod yn anodd rhagweld tueddiadau'r dyfodol, y tu hwnt i effaith uniongyrchol COVID-19. Bydd hyn yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau bod ymyriadau yn y dyfodol yn targedu'r grwpiau a allai gael y budd mwyaf o gymorth ar gyfer gweithgareddau diwylliannol o fewn categori demograffig penodol neu gymuned leol benodol. Bydd hefyd angen mwy o waith gwerthuso ac asesu parhaus er mwyn nodi'r cyfraniad a wneir gan ddiwylliant at lesiant, gan y bydd ffactorau eraill hefyd yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn ymgysylltu â gweithgarwch diwylliannol, a'i allu i wneud hynny, ac ar ei lesiant cyffredinol o gymharu ag aelodau eraill o'i gymuned.

-
- ¹ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)
- ² Cyfrifiad 2011
- ³ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, SYG
- ⁴ Cyfrifiad 2011
- ⁵ Cyfrifiad 2011
- ⁶ Cyfrifiad 2011
- ⁷ Cyfrifiad 2011
- ⁸ Cyfrifiad 2001 a 2011
- ⁹ Cyfrifiad 2001 a 2011
- ¹⁰ Cyfrifiad 2001 a 2011
- ¹¹ Cyfrifiad 2001 a 2011
- ¹² [Y Swyddfa Gartref](#)
- ¹³ [Y Swyddfa Gartref](#)
- ¹⁴ [Y Cenhedloedd Unedig](#)
- ¹⁵ [Y Swyddfa Gartref](#)
- ¹⁶ Cyfrifiad 2001 a 2011
- ¹⁷ [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, SYG](#)
- ¹⁸ Cymraeg 2050
- ¹⁹ [Cyngor Blaenau Gwent – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2020-2021](#)
- ²⁰ [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 21-2020](#)
- ²¹ [Cyngor Sir Fynwy – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2020-21](#)
- ²² [Cyngor Dinas Casnewydd – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2020-2021](#)
- ²³ [Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2020-2021](#)
- ²⁴ Adroddiad monitro blynyddol Heddlu Gwent
- ²⁵ Adroddiad Monitro
- ²⁶ Adroddiadau Monitro
- ²⁷ Adroddiadau Monitro
- ²⁸ [Senedd Cymru](#)
- ²⁹ Arolwg Cenedlaethol Cymru
- ³⁰ Arolwg Cenedlaethol Cymru
- ³¹ Wan Mak a Fancourt, 2020; Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), 2020
- ³² Arolwg Cenedlaethol Cymru
- ³³ Arolwg Cenedlaethol Cymru
- ³⁴ [Cyngor Celfyddydau Cymru](#)
- ³⁵ [Mynegai Treftadaeth yr RSA](#)
- ³⁶ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.
- ³⁷ Arolwg Cenedlaethol Cymru
- ³⁸ [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
- ³⁹ Gwefan Parkrun
- ⁴⁰ [Gwefan Parkrun](#)
- ⁴¹ [Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru](#)
- ⁴² Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Blaenau Gwent
- ⁴³ Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Caerffili
- ⁴⁴ Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Sir Fynwy
- ⁴⁵ Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Casnewydd
- ⁴⁶ Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol Torfaen
- ⁴⁷ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)
- ⁴⁸ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.